OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 517

# Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

## RHAN 3

## Staenio

**Staenio**

**10.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i weithredwyr y canlynol—

(a) lladd-dai;

(b) safleoedd torri;

(c) sefydliadau trin anifeiliaid hela; a

(d) storfeydd oer.

(2) Yn y rhan hon—

(a) mae i'r termau "lladd-dy", "safle torri" a "sefydliad trin anifeiliaid hela" yr ystyron a roddir iddynt yn rheoliad 5(6) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**1**);

(b) ystyr "storfa oer" yw unrhyw fangre arall a ddefnyddir i storio cig ffres y bwriedir ei werthu i bobl ei fwyta, o dan amodau lle rheolir y tymheredd.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i weithredwyr fynd ati'n ddi-oed i staenio'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid a ganlyn yn unol â pharagraff (4)—

(a) sgil-gynhyrchion anifeiliaid a ddiffinnir gan unrhyw rai o'r erthyglau a ganlyn yn Rheoliad Rheolaeth yr UE—

(i) Erthygl 8(c);

(ii) Erthygl 8(d);

(iii) Erthygl 9(c); neu

(iv) Erthygl 9(d);

(b) cyrff cyfan dofednod pan fo'r anifeiliaid yn farw wrth gyrraedd y lladd-dy;

(c) cyrff anifeiliaid neu rannau o anifeiliaid sy'n anaddas i'w bwyta gan bobl am eu bod yn dangos arwyddion clefyd a all gael ei drosglwyddo i fodau dynol neu anifeiliaid;

(d) cyrff anifeiliaid neu rannau o anifeiliaid sy'n anaddas i'w bwyta gan bobl am nad ydynt wedi eu cyflwyno i'w harolygu naill ai ante mortem neu post mortem;

(e) cyrff anifeiliaid neu rannau o anifeiliaid sydd wedi eu halogi ag unrhyw sylwedd a all beri bygythiad i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid; ac

(f) deunydd Categori 3 sydd wedi newid drwy ddadelfennu neu drwy gael ei ddifetha nes ei fod yn peri risg annerbyniol i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid.

(**1**) O.S. 2006/31 (Cy. 5) y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(4) Rhaid i weithredwyr—

(a) staenio'r deunydd a restrwyd ym mharagraff (3) ag asiant lliwio a chan defnyddio toddiant o'r cyfryw gryfder sy'n sicrhau bod y staenio'n glir i'w weld ac yn parhau'n weladwy ar ôl i'r sgil-gynnyrch anifeiliaid gael ei oeri neu ei rewi;

(b) gosod y staen ar arwyneb cyfan y sgil-gynnyrch, boed drwy drochi'r sgil-gynnyrch yn y staen, ei chwistrellu â'r toddiant neu osod y toddiant arno drwy unrhyw ddull sydd yr un mor effeithiol;

(c) yn achos sgil-gynnyrch anifeiliaid nad yw'n dod o fewn paragraff (3) ac sy'n pwyso mwy nag 20 kg, gosod y staen ar ôl i'w arwyneb gael ei agor gan doriadau niferus a dwfn; a

(d) yn achos sgil-gynnyrch anifeiliaid sy'n gorff cyfan dofedn, p'un a yw wedi ei ddiberfeddu neu wedi ei bluo ai peidio, gosod y staen ar ôl i arwyneb y corff gael ei agor gan doriadau niferus a dwfn.

(5) Nid oes angen i weithredwyr staenio yn unol â pharagraff (3)—

(a) unrhyw sgil-gynnyrch anifeiliaid a symudir, neu y bwriedir iddo gael ei symud, oddi ar unrhyw fangre gan filfeddyg neu o dan awdurdod milfeddyg i'w archwilio gan y milfeddyg neu ar ei ran;

(b) unrhyw sgil-gynnyrch anifeiliaid a gymysgir ag offal gwyrdd mewn cynhwysydd sy'n cynnwys yn bennaf offal gwyrdd i'w waredu yn unol â Rheoliad Rheolaeth yr UE;

(c) unrhyw sgil-gynnyrch anifeiliaid y bwriedir ei ddefnyddio at ddibenion gwyddonol ac a osodir, hyd nes ei ddefnyddio neu ei symud i fangre i'w ddefnyddio felly yn unol â Rheoliad Rheolaeth yr UE, mewn ystafell ac mewn daliedydd a ddyluniwyd i ddal sgil-gynhyrchion anifeiliaid ac sydd â hysbysiad arno fod ei gynnwys wedi ei fwriadu i'w ddefnyddio at ddibenion gwyddonol;

(d) unrhyw sgil-gynnyrch anifeiliaid a symudir ar unwaith ar ôl ei gynhyrchu i sefydliad neu safle prosesu, neu sefydliad neu safle llosgi, a gymeradwywyd o dan Reoliad Rheolaeth yr UE drwy bibell sydd wedi'i selio ac sy'n ddiogel rhag gollyngiadau; neu

(e) corff cyfan anifail, ac eithrio corff cyfan dofedn.

(6) Ni chaiff neb allforio deunydd wedi ei staenio o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff (3) i Aelod-wladwriaeth arall yn yr Undeb Ewropeaidd oni bai bod yr Aelod-wladwriaeth honno'n cytuno i fewnforio'r deunydd.

(7) Ym mharagraff (5)(b) o'r rheoliad hwn ystyr "offal gwyrdd" yw stumog a pherfeddion anifail a chynnwys y llwybr treulio.